Adroddiad Blynyddol 2022-23

# Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU

RHONDDA CYNON TAF



Y Cynghorydd J Edwards

# Adroddiad Blynyddol 2022-23
# Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU
# Rhagair y Cadeirydd

**Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu cyntaf ers cael fy mhenodi'n Gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 2022-27, ac yn dilyn blwyddyn gyntaf y trefniadau Craffu diwygiedig. Mae'r fframwaith Pwyllgorau Craffu newydd yn cefnogi'r gofynion newydd yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae'r newidiadau yma'n darparu strwythur adrodd sy'n fwy syml ac sy'n cyd-fynd yn well â Chynllun Corfforaethol a dull gweithredu'r Cyngor. Mae hyn yn golygu bod modd rhoi cymorth gwell i Aelodau sy'n dychwelyd ac Aelodau newydd o ran cyflawni'u gwaith craffu, yn ogystal â herio a chraffu ar y ddarpariaeth.**

Mae'r adroddiad yma'n trin a thrafod ymdrechion parhaus a gwaith caled ein holl Bwyllgorau Craffu, sydd wedi ymrwymo i sicrhau effeithlonrwydd a bod yn gyfeillion beirniadol er mwyn ysgogi rhagor o welliannau yn narpariaeth gwasanaethau'r Cyngor. Mae'r adroddiad yn amlygu'r heriau y mae'r Awdurdod wedi'u hwynebu, yn ogystal â'r datrysiadau a gafodd eu rhoi ar waith a'r deilliannau perthnasol ar gyfer ein trigolion. Yn ogystal â hynny, mae'r adroddiad yn nodi ein bod ni wedi ymrwymo i welliannau parhaus, ac yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar ein gwaith. Rydyn ni wedi gwneud rhagod o ymdrech i graffu ar faterion cyn i'r Adain Weithredol wneud penderfyniadau yn eu cylch eleni. Nod hyn yw helpu'r Adain Weithredol i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth fanwl a chytbwys, gan sicrhau deilliannau effeithiol ar gyfer y cyhoedd.

Mae'r Pwyllgorau Craffu wedi dylanwadu ar sawl penderfyniad pwysig eleni, gan gynnwys yr Adolygiad o Wasanaethau Gofal Preswyl yn Rhondda Cynon Taf. Maen nhw hefyd wedi craffu ar broses pennu cyllideb y Cyngor, a chynnal gwaith monitro parhaus o ran effaith rhaglen foderneiddio Ysgolion yr 21ain Ganrif. Mae'r rhain oll yn faterion hollbwysig sy'n effeithio ar ein trigolion. Mae rhagor o fanylion am y pynciau hyn o fewn yr adroddiad.

Hoffwn achub ar y cyfle yma i ddiolch i holl Gadeiryddion, Is-gadeiryddion, Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig ein Pwyllgorau Craffu am eu hymrwymiad a'u cefnogaeth. Mae hyn wedi sicrhau bod modd i'n Pwyllgorau ddal ati i gael effaith gadarnhaol ar ein trigolion. Hoffwn hefyd ddiolch i'n rhanddeiliaid a'n swyddogion am eu cymorth a'u gwaith caled drwy gydol y flwyddyn.

**Y Cynghorydd J. Edwards**
**Cadeirydd, Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 2022-27, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**

# Gwaith Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Rhondda Cynon Taf yn ystod Blwyddyn y Cyngor 2022-23

## Cynnwys


- Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 2022 - 2027 (2022-23)
- Pwyllgor Craffu - Materion yr Hinsawdd, Gwasanaethau Rheng Flaen a Ffyniant (2022-23)
- Pwyllgor Craffu - Gwasanaethau Cymuned (2022-23)
- Y Pwyllgor Craffu – Addysg a Chynhwysiant (2022-23)



Y Cynghorydd J Edwards

# Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 2022 - 2027 (2022-23)

Mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cydlynu gwaith y pedwar Pwyllgor Craffu, ac mae'n gyfrifol am gymeradwyo'r Rhaglenni Gwaith a gaiff eu llunio gan y tri Phwyllgor Craffu thematig. Nod hyn yw cydlynu'r holl raglenni gwaith fel bod modd eu cyflawni'n effeithlon a sicrhau eu bod nhw'n canolbwyntio ar ddeilliannau. Os oes rhywbeth sy'n codi o fewn cylch gwaith mwy nag un Pwyllgor Craffu, bydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn penderfynu pa Bwyllgor ddylai fynd i'r afael â'r mater. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am alw ceisiadau i mewn. Mae rhagor o fanylion am gyfrifoldebau'r Pwyllgor i'w gweld **yma.**

## Rhag-graffu - Gofal Preswyl i Bobl Hŷn

Ar **29 Tachwedd 2022** a **27 Chwefror 2023,** roedd cyfle i ni rag-graffu ar y cynigion ynghylch y dewis a ffafrir gan y Cyngor o ran darparu gofal preswyl i bobl hŷn Rhondda Cynon Taf yn y dyfodol, yn ogystal â chynigion o ran moderneiddio a buddsoddi. Roedd hyn yn deillio o'r angen i foderneiddio a pharhau i wella gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion yn y fwrdeistref sirol, gan edrych ymhellach ar gefnogi annibyniaeth unigolion fel bod modd iddyn nhw aros yn eu cartrefi eu hunain gyn hired â phosibl. Mae rhagor o fanylion am y penderfyniad dan sylw **yma.**

Croesawodd yr Aelodau'r adroddiad, gan gytuno y byddai peidio â newid y sefyllfa yn anhyfyw. Nodon nhw y byddai angen gwneud penderfyniadau anodd er mwyn sicrhau gofal addas at y diben, sy'n fodern ac o ansawdd da, i drigolion. Aeth yr Aelodau ati i gydnabod y cwymp yn y galw am ofal preswyl, gan nodi bod rhagor o drigolion yn awyddus i fyw'n annibynnol a derbyn gofal yn eu cartrefi eu hunain. Roedd hyn yn ystyriaeth amlwg yn ein trafodaeth ynghylch y cynigion;

**Argymhellion/deilliannau**

- Aeth yr Aelodau ati i **argymell** y dylai gwaith ymgysylltu priodol fynd rhagddo gyda'r staff mewn perthynas â chyfleoedd adleoli ac ymddeoliadau gwirfoddol.
- Pwysleisiodd yr Aelodau ei bod hi'n bwysig i'r trigolion a'u teuluoedd gael dweud eu dweud am y cynigion ar bob cam, a hynny er mwyn sicrhau bod modd i drigolion aros yn agos at eu teuluoedd. Byddai hyn hefyd yn helpu'r Awdurdod i ddadansoddi'r galw a diogelu'r cyfleusterau ar gyfer y dyfodol drwy sicrhau eu bod nhw'n diwallu anghenion ein trigolion.
- Roedd yr Aelodau'n bryderus ynghylch datgomisiynu cartrefi gofal sy'n bodoli eisoes cyn datblygu llety newydd, er enghraifft yn achos Ferndale House a chartref gofal Ystrad Fechan. Mae cartref Ystrad Fechan wedi'i leoli mewn ardal sy'n wynebu perygl llifogydd, ac roedd pryderon pellach y gallai'r cyfleuster gael ei golli unwaith ac am byth os na chaiff lleoliad newydd ei glustnodi. O ganlyniad i hyn, aeth yr Aelodau ati i **argymell** bod y Pwyllgor yn derbyn gwybodaeth bellach am y cartref gofal, ar ben yr hyn a oedd eisoes yn yr adroddiad.
- Roedd yr Aelodau o'r farn bod y cyfleusterau Gofal Ychwanegol yn wych, ond fe wnaethon nhw **argymell** y dylen nhw gael eu dylunio mewn modd sy'n eu galluogi i ddiwallu anghenion trigolion sydd o bosibl yn datblygu anghenion cymhleth, gan fodloni safonau modern ar yr un pryd. Byddai hyn yn atal trigolion rhag gorfod symud o'r naill leoliad i'r llall, a byddai modd iddyn nhw aros yn eu cartrefi, lle mae popeth yn gyfarwydd iddyn nhw.

## Cyllideb 2023-24

Yn ogystal â monitro cyflawniad ariannol y Cyngor drwy gydol y flwyddyn, mae Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu hefyd yn craffu ar y gwaith o bennu **Cyllideb Flynyddol y Cyngor** Nod hyn yw sicrhau bod y cynigion sy'n cael eu gwneud yn cyfleu blaenoriaethau'r Cyngor ac yn dangos ein bod ni'n defnyddio'n hadnoddau mewn modd effeithiol ac effeithlon.

Mae pawb yn wynebu effeithiau'r Argyfwng Costau Byw yn y DU ar hyn o bryd, ac o ganlyniad i hynny, roedden ni'n falch o glywed y byddai'r cynnydd arfaethedig i Dreth y Cyngor yn fach iawn. Cafodd cynnydd o 3.5% ei gynnig, sydd yn llawer is na chyfradd chwyddiant. Mae hyn ymhlith y cynnydd isaf yn lefelau Treth y Cyngor ledled Cymru. Roedden ni'n falch o glwyed bod Strategaeth y Gyllideb wedi neilltuo cyllid ar gyfer holl gostau'r ysgolion. Serch hynny, aeth yr Aelodau ati i **herio'r** defnydd o gronfa wrth-gefn yr ysgolion, gan **argymell** bod yr Awdurdod yn helpu'r ysgolion i roi cynllun ar waith er mwyn defnyddio cronfeydd wrth-gefn i gefnogi unrhyw fesurau effeithlonrwydd yn y dyfodol.

Wrth ystyried cynigion arbedion effeithlonrwydd yn y Gyllideb, cytunodd Aelodau’r Pwyllgor â dull y Cyngor o wneud y mwyaf o arbedion effeithlonrwydd a dulliau parhaus o ddod o hyd i ffyrdd newydd o weithio, ond **argymhellir** bod y Pwyllgorau Craffu yn monitro effaith yr arbedion effeithlonrwydd yn ofalus i sicrhau nad yw'r rhain yn arwain at ostyngiad yn y gwasanaethau a ddarperir, yn enwedig gwasanaethau rheng flaen sy'n cael effaith uniongyrchol ar ein trigolion.

Roedden ni'n falch o weld bod cynigion mewn perthynas â'r ffioedd a'r taliadau yn realistig ac yn cefnogi'r Cyngor i gyflawni cyllideb gytbwys.  Roedden ni'n cytuno bod y taliadau'n parhau i fod yn gystadleuol ac yn rhoi gwerth am arian i'n trigolion o gymharu ag awdurdodau cyfagos. Gwnaethon ni **argymell** bod yr Awdurdod yn ystyried codi ffi uwch ar ymwelwyr o'r tu allan i Rondda Cynon Taf am ddefnyddio'r lido, a fyddai'n arwain at incwm uwch i'r Awdurdod ond hefyd yn cyfrannu at leihau archebion bloc a lleoedd gwastraff y mae'r Cyngor wedi'u profi. Gallwch ddarllen rhagor o fanylion am ein hadborth i'r Cabinet **yma.**

## Ymgynghoriadau - Adolygiad o Etholaethau Seneddol yng Nghymru - Comisiwn Ffiniau i Gymru – Cynigion Cychwynnol

Rhoddodd yr Aelodau adborth ffurfiol ar gynigion diwygiedig terfynol y Comisiwn Ffiniau i Gymru yn y cyfarfod ar **7 Tachwedd 2022.**

Mae'r **Comisiwn Ffiniau i Gymru** yn gyfrifol am adolygu ffiniau etholaethau seneddol yng Nghymru ac ar hyn o bryd mae'n ofynnol iddo gyflwyno adroddiad ffurfiol erbyn 1 Gorffennaf 2023 ar sail rheolau a nodir yn Neddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Etholaethau Seneddol 2020). Bydd yr adolygiad yn golygu gostyngiad sylweddol yn nifer yr etholaethau yng Nghymru, o'r 40 cyfredol i 32. Ceir rhagor o wybodaeth am y cynigion terfynol a gafodd eu hystyried gan y Pwyllgor, a sut mae'r rhain yn effeithio ar Rondda Cynon Taf, **yma.** Edrychwn ymlaen at gael y penderfyniad terfynol gan y Comisiwn Ffiniau pan gaiff ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf.

**Deilliannau / Argymhellion**

- Mynegodd yr Aelodau bryderon ynghylch y cynnig i symud ward **Ffynnon Taf** i etholaeth Gogledd Caerdydd. Roedd yr Aelodau o'r farn nad oedd gan **Ffynnon Taf** unrhyw gysylltiadau uniongyrchol â'r cymunedau eraill a fyddai'n dod o fewn yr etholaeth arfaethedig. Teimlai'r Aelodau hefyd y byddai hyn yn achosi dryswch o fewn y gymuned gan y byddai'r ardal yn eistedd o fewn Ffiniau gwahanol ar lefel Awdurdod Lleol a Seneddol. Teimlai'r Aelodau pe bai rhaid i **Ffynnon Taf** symud allan o etholaeth **Pontypridd**, y byddai mewn sefyllfa well o fewn etholaeth **Gorllewin Caerdydd** gan fod gan y Gymuned fwy yn gyffredin â wardiau cyfagos megis **Gwaelod-y-garth** a **Phentyrch**.
- Codwyd pryderon tebyg mewn perthynas ag **Aberpennar**, yn yr ystyr nad oes gan yr ardal unrhyw gysylltiadau cryf â **Phontypridd**. Mae gan yr ardal ragor o nodweddion yn gyffredin gyda chymunedau yng **Nghwm Cynon**, felly fe wnaeth yr Aelodau **argymell** y byddai'n well pe byddai'r ardal yn **Etholaeth Merthyr a Chwm Cynon Uchaf.**
- Mynegodd yr Aelodau bryderon ynghylch y wardiau sy'n gwasanaethu **Pencoed**, y bwriedir eu symud i ward **Rhondda**. Dywedodd yr Aelodau fod y cynnig hwn yn groes i'r datganiad y bydd y Comisiwn yn ceisio argymell etholaethau sy'n cynnwys wardiau etholiadol cyfan sydd nesaf at ei gilydd ac nad ydynt yn cysylltu â rhannau datgysylltiedig. Fe wnaeth yr Aelodau felly **argymell** peidio â bwrw ymlaen â'r cynnig yma

**Roedd rhai o uchafbwyntiau eraill y Pwyllgor yn cynnwys:**

**Papur Gwyn ar Ddiogelwch Tomenni Glo (Cymru)**

**Adolygiad Gwasanaeth Prydau yn y Gymuned**

**Strategaeth Reoli Gwasatraff Ddiwygiedig**

**Papur Gwyn ar weinyddu a diwygio etholiadol**

**Y Diweddaraf am Gynnydd y Cyngor – Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb Archwilio Cymru: mwy nag ymarfer blwch ticio?**

**Yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol**

**Cynllun Gweithredu 5 mlynedd Strategaeth Hybu'r Gymraeg**

**Y Strategaeth Ddatgarboneiddio Gorfforaethol**

# Pwyllgor Craffu - Materion yr Hinsawdd, Gwasanaethau Rheng Flaen a Ffyniant (2022-23)

## Ymgynghoriadau

Mae Ymgynghoriadau Agored sy'n cael eu cynnal gan Lywodraeth Cymru yn cael eu dosbarthu i'r Aelodau drwy Swyddog Ymchwil a Materion Craffu'r Aelodau bob mis ac yn cael eu diweddaru bob pythefnos. Mae dyddiad cau pob ymgynghoriad yn cael ei nodi er hwylustod i'r Aelodau.

Ar **29 Medi 2022**, gwahoddwyd Aelodau'r Pwyllgor Craffu - Materion yr Hinsawdd, Gwasanaethau Rheng Flaen a Ffyniant i ymgynghori ar yr **Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru 2022 (WelTag)** a'r **Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol 2022-2027.**

Cafodd y ddau ymgynghoriad eu cynnal gan Lywodraeth Cymru a chafodd cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru eu gwahodd i gyfarfod y Pwyllgorau Craffu er mwyn darparu trosolwg o'r wybodaeth gefndirol mewn perthynas â'r ddau ymgynghoriad. Croesawodd yr Aelodau Ms Clark a Mr Holder, cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, i'r Pwyllgor. Cyflwynwyd y cwestiynau a nodwyd yn yr ymgynghoriad i'r Aelodau a dywedwyd wrthynt y byddai eu hymatebion yn cael eu casglu a'u hadrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru o fewn terfynau amser yr ymgynghoriad.

**Deilliant:**

- Roedd yr Aelodau o'r farn bod lles y gymuned yn allweddol ac mae'n rhaid i ddulliau teithio fod yn gyfleus ac yn gyflym i bobl eu defnyddio;
- Cytunodd yr Aelodau y byddai cost trafnidiaeth gyhoeddus yn atal y Cyngor rhag cyflawni Sero Net, gan ddweud bod rhaid mynd i'r afael â chost trafnidiaeth os yw'r Cyngor am ei wneud yn fwy cynaliadwy;
- Roedd yr Aelodau o'r farn os yw Llywodraeth Cymru yn dal i geisio diffinio ystyr 'prisiau tecach', bod hyn yn negyddu pwrpas yr ymgynghoriad;
- Mewn perthynas ag ymgynghoriad yr Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru, roedd yr Aelodau o'r farn bod angen atebolrwydd a chraffu pellach wrth i'r rhaglenni barhau. Cytunodd yr Aelodau y dylai hyn gael ei gyflawni gan garfanau mewnol. Serch hynny, nodwyd bod hyn yn dibynnu ar adnoddau. Â hwythau'n Gynghorwyr a Etholwyd yn Ddemocrataidd, cytunodd yr Aelodau mai nhw sydd yn y sefyllfa orau ar gyfer hyn, o ystyried bod ganddyn nhw oll gysylltiadau yn eu cymunedau a'u hardaloedd eu hunain;
- O ran Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol 2022-27, cytunodd yr Aelodau ar bwysigrwydd gwneud y Gymraeg yn fwy hygyrch. Po fwyaf y bydd pobl yn teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus, y mwyaf y byddan nhw'n clywed ac yn gweld yr iaith. Bydd darparu rhagor o wasanaethau dwyieithog yn gwella'r defnydd o'r Gymraeg; a,
- Teimlai'r Aelodau na allen nhw ateb yr holl gwestiynau yn yr Ymgynghoriad ar y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol gan nad oedd digon o wybodaeth wedi'i darparu gan Lywodraeth Cymru. Felly gofynnodd y Pwyllgor Craffu am ddadansoddiad pellach o'r Cynllun gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Rheng Flaen.

Yn dilyn hynny, casglwyd sylwadau'r Aelodau ac fe'u hanfonwyd yn ôl at Lywodraeth Cymru.

## Rhag-Graffu ar Strategaeth Coed, Coetiroedd a Gwrychoedd Rhondda Cynon Taf

Yn ei gyfarfod ar **15 Tachwedd 2022**, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn rhoi cyfle i Aelodau rag-graffu ar y **Strategaeth Coed, Coetiroedd a Gwrychoedd**. Yn y cyfarfod croesawodd yr Aelodau Strategaeth y Cyngor o ran Coed, Coetiroedd a Gwrychoedd, ac fe aethon nhw ati i ganmol gwaith caled y Cyngor yn y maes hwn.

Ffocws y strategaeth hon oedd mynd ati i warchod Coed a Choetiroedd Rhondda Cynon Taf - seilwaith gwyrdd parciau, gerddi, coedwigoedd, coed ar strydoedd, llwybrau troed, mannau gwyrdd, coed a gwrychoedd sydd o fudd sylweddol i'n hamgylchedd. Mae'r strategaeth hefyd yn gosod y fframwaith ar gyfer ymrwymiad y Cyngor i'r rhaglen plannu coed fwyaf mewn cenhedlaeth, gan fabwysiadu'r dull "coeden iawn, lle iawn, rheswm iawn".

### Deilliannau:

Roedd Aelodau o'r farn bod angen gwella'r meysydd canlynol yn yr adroddiad:

- Ystyried bylchau a phlannu coed ffrwythau mewn clystyrau i wella twf, cnwd ffrwythau ac ymddangosiad y coed o fewn yr amgylchedd a lleoliadau;
- A ddylai'r adroddiad ystyried cyfeirio at ddeddfwriaeth ynghylch coed peryglus yn hytrach na'r polisi y cyfeirir ato yn y ddogfen? Teimlai'r Aelodau y byddai'r ddeddfwriaeth statudol yn disodli unrhyw bolisi lleol ac y dylid ei gynnwys felly;
- Dylid gwirio cyfeiriadau yn yr adroddiad sy'n nodi Safon Brydeinig BS5837 i gadarnhau eu bod yn cyfeirio at y safon BS5837 (2012) wedi'i diweddaru, ac nid at fersiynau blaenorol gyda'r enw 'BS5837';
- Dylid hefyd ystyried canllawiau a nodir gan gyrff cynghori eraill a chymdeithasau perthnasol, megis cyhoeddiadau a deunyddiau cyfeirio NHBC neu'r Ardd Fotaneg Frenhinol.

I gloi, cymeradwyodd yr Aelodau'r adroddiad a dweud y byddai gwaith parhaol y Cyngor yn y maes hwn yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer cefnogi gwaith pellach o ran y Strategaeth Coed, Coetiroedd a Gwrychoedd

## Cynllun Gweithredu a Chynllun Cyflawni ar gyfer Gwefru Cerbydau Trydan

Ar **29 Medi 2022**, trafododd yr Aelodau'r **Cynllun Gweithredu a Chynllun Cyflawni ar gyfer Gwefru Cerbydau Trydan** a gofynnwyd iddyn nhw wneud sylwadau ar y Cynllun i'w bwydo'n ôl i Is-bwyllgor y Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd. Pwrpas y Strategaeth yw amlinellu dyheadau'r Cyngor a bwriad y Cynllun Gweithredu yw darparu arweiniad a chyngor pellach ar y gofynion o ran datblygu seilwaith gwefru cerbydau trydan ar draws y Fwrdeistref Sirol.

### Deilliannau:

Roedd yr Aelodau'n cefnogi'r Strategaeth ac fe aethon nhw ati i ganmol buddsoddiad parhaus y Cyngor yn ei Strategaeth Newid Hinsawdd. Roedd Aelodau o'r farn bod angen gwella'r meysydd canlynol yn yr adroddiad.

### Angen ffocws a sylw ychwanegol:

- Rhaid gwella'r seilwaith a'r dechnoleg cyn rhoi'r Strategaeth ar waith;
- Argymhellodd yr Aelodau ddull hybrid;
- Argymhellodd yr Aelodau fod y Cyngor yn gwella ei ddulliau cyfathrebu gyda thrigolion RhCT cyn gweithredu'r strategaeth;
- Mae'r math o bwynt gwefru yn hanfodol os yw trigolion RhCT am dderbyn hyn h.y. mae angen pwyntiau gwefru cyflym iawn i gael trigolion i gefnogi'r Strategaeth;
- Cytunodd yr Aelodau i adolygu ymarferoldeb y cynllun gweithredu yn ddiweddarach, a gofyn i Swyddogion ddychwelyd gyda dadansoddiad manylach.

### Mae Gwaith Arall yn Cynnwys:

- **Cynnal Gwaith Rhag-Graffu ar Adroddiad Monitro Blynyddol yr Ardoll Seilwaith Cymunedol**
- **Ymgynghoriad: Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (Weltag) 2022**
- **Casgliadau Gwastraff Gwyrdd**
- **Gwaith Bioamrywiaeth Cyfredol yn RhCT**
- **Adroddiad ar Gyflawniad Ailgylchu'r Cyngor 2021/22**
- **Adolygiad o'r Ddarpariaeth Cludo Disgyblion i Ysgolion Prif Ffrwd**
- **Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan - Diweddariad**
- **Strategaeth Canol Tref Porth**
- **Terfyn Cyflymder 20mya Llywodraeth Cymru 2023**
- **Cynllun Buddsoddiad y Priffyrdd**
- **Derbyn yr Wybodaeth Ddiweddaraf am Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU a'r Cynlluniau Buddsoddi ar Gyfer De-Ddwyrain Cymru a Rhondda Cynon Taf**
- **Datblygu Strategaeth Adfywio Ddrafft ar gyfer Canol Tref Aberdâr.**
- **Hawliau Tramwy Cyhoeddus**

## Ymweliad â Safle Bryn Pica

Rhoddwyd cyfle i Aelodau ymweld â Bryn Pica ar 25 Hydref 2022 a 13 Ionawr 2023. Roedd y daith yn cynnwys dwy ran: ymweliad â'r Ganolfan Addysg i alluogi'r Aelodau i ddysgu am y broses ailgylchu; dilynwyd hyn gan ymweliad ar y safle â'r Cyfleuster Ailgylchu Deunyddiau (MRF) i weld y prosesau hyn ar waith. Roedd yr Aelodau'n gwerthfawrogi'r cyfle hwn i ddysgu mwy am y broses ailgylchu a theimlai'r Aelodau y dylid ymestyn yr ymweliadau hyn i fwy o ysgolion ar draws y Fwrdeistref Sirol.

# Pwyllgor Craffu - Gwasanaethau Cymuned (2022-23)

## Strategaeth Trawsffurfio Llety Preswyl y Gwasanaethau i Blant

Ar **28 Tachwedd 2022**, bu’r Pwyllgor yn rhag-graffu ar adroddiad Strategaeth Trawsffurfio Llety Preswyl y Gwasanaethau i Blant, a oedd yn rhoi gwybodaeth am gynlluniau'r gwasanaethau i blant ar gyfer datblygu gwasanaethau gofal preswyl yn unol â dyletswyddau’r Cyngor, ac yng nghyd-destun uchelgais Polisi Llywodraeth Cymru, i gael gwared ar elw o ddarpariaeth gofal i bobl ifainc sy'n derbyn gofal.  Cydnabyddir bod craffu yn elfen hanfodol o lywodraethu da a’i fod yn gwella prosesau gwneud penderfyniadau, darpariaeth gwasanaethau a chost-effeithiolrwydd y Cyngor. Byddai ymgymryd â gwaith rhag-graffu yn y maes hwn, yn cryfhau atebolrwydd ac yn cynorthwyo Aelodau’r Cabinet i wneud unrhyw benderfyniadau ar y materion hyn.

**Deilliannau:**

- Cydnabu’r Aelodau’r ansicrwydd sylweddol ynghylch darparwyr yn parhau â model darparu dielw erbyn 2027, ac roeddent am gael sicrwydd, pe bai rhai sefydliadau er elw yn gadael y sector, y byddai darpariaethau penodol yn dal i fod ar waith ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.
- Roedd yr Aelodau'n cydnabod bwriad deddfwriaethol yn yr ymgyrch i gael gwared ar faterion sy'n ymwneud ag elw, ond mynegwyd pryderon y byddai hyn yn arwain at ganlyniadau anfwriadol ac yn torri ar draws yr ymgyrch i leihau nifer y preswyliadau y tu allan i'r sir.
- Teimlai'r Aelodau ei bod yn bwysig i Bobl Ifainc beidio â byw mewn llety gwely a brecwast, tra'n cydnabod nad oedd unrhyw rai dan 18 oed yn RhCT mewn llety o'r fath.
- Tra'n cydnabod y diffygion yn narpariaeth y farchnad a bod rhai eithriadau, teimlai'r Aelodau ei bod hi' bwysig i Bobl Ifainc gael eu lleoli mewn man rhesymol, yn hytrach nag y tu allan i'r sir.
- Teimlai'r Aelodau ei bod yn bwysig ystyried y ddarpariaeth briodol, yn y lle iawn, gan gydnabod yr angen i gynyddu capasiti yn nes at adref, a hynny ar frys.

## Cymorth i Ffoaduriaid, Dinasyddion Wcráin a Cheiswyr Lloches yn Rhondda Cynon Taf

Yn ei gyfarfod ar **30 Ionawr 2023**, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn rhoi cyfle i Aelodau graffu ar y cymorth a ddarperir gan y Cyngor i ffoaduriaid, gwladolion Wcráin a cheiswyr lloches yn Rhondda Cynon Taf. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r gwaith sylweddol a wnaed gan y Cyngor a sefydliadau partner i ymateb mor gadarnhaol ac mor effeithiol â phosibl ar draws yr holl gynlluniau ailsefydlu. Clywodd yr Aelodau hefyd gan ffoadur o Afghanistan a rannodd ei brofiad o ran dod i Gymru.

### Deilliannau

- Roedd yr Aelodau'n llwyr gefnogi'r gwaith a oedd yn cael ei wneud gan y carfanau ailsefydlu, gan nodi'r 800 o geiswyr lloches y disgwylir iddynt ddod i'r ardal, ac roedden nhw'n awyddus i sicrhau bod hyn yn cael ei wneud mewn ffordd sy'n gwneud i bobl deimlo'n gyfforddus a'u bod wedi'u parchu.
- Roedd yr Aelodau'n cydnabod o ran y Ganolfan Groeso, bod rhai materion sensitif iawn yn cael eu rheoli a'i bod yn anodd iawn cael y cydbwysedd yn iawn o ran gwybodaeth, ond roedd hi'n bwysig ystyried bod modd i hyn wneud pethau'n anodd i Aelodau lleol.
- Nododd yr Aelodau ei bod hi'n debygol mai ceiswyr lloches fyddai'r rhai mwyaf agored i niwed, ac efallai na fyddai modd iddyn nhw gael gafael ar lawer o adnoddau. Roedden nhw'n awyddus i sicrhau bod y strategaeth cydlyniant cymunedol mor gryf ag y gallai fod.
- Roedd yr Aelodau'n awyddus i sicrhau, pe bai'r ganolfan groeso yn cau ddiwedd mis Mawrth, y byddai teuluoedd yn parhau i gael eu cefnogi.
- Roedd yr Aelodau’n pryderu am y trawma sy’n effeithio ar y rhai a oedd yn cyrraedd y DU, ac yn teimlo ei bod hefyd yn bwysig i Swyddogion gael y cymorth priodol, i ymateb i drawma yn eu gwaith, gan y byddai llawer o’r hyn y bydden nhw'n ei glywed yn ddirdynnol.

## Rhaglen drawsnewid gwasanaethau anableddau dysgu (gwasanaethau oriau dydd)

Yn y cyfarfod ar **20 Mawrth 2023** derbyniodd yr Aelodau adroddiad a chyflwyniad manwl ar y gweithgaredd ymgysylltu a chyd-gynhyrchu a gyflawnwyd wrth ddatblygu model gweithredu Gwasanaethau Oriau Dydd drafft newydd a Strategaeth ar gyfer pobl ag anabledd dysgu yn Rhondda Cynon Taf. Clywodd yr Aelodau am fanylion y broses ymgysylltu gynhwysfawr a gynhaliwyd hyd yma yn rhan o brosiect 'Fy Niwrnod i, Fy Newis i' y Gwasanaeth Anableddau Dysgu, a dangoswyd fideo yn darparu canlyniadau'r ymgysylltu a'r themâu allweddol sydd wedi dod i'r amlwg a fydd yn llywio'r strategaeth wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

### Deilliannau

- Nododd yr Aelodau'r gwaith rhagorol a wnaed yn rhan o'r broses ymgysylltu ac roeddent yn falch o weld y gydnabyddiaeth y mae wedi'i chael ar ôl i'r Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth ddweud bod hyn yn enghraifft wych o gydgynhyrchu. Argymhellodd yr Aelodau fod y broses ymgysylltu yn parhau drwy gydol datblygiad y Strategaeth.
- Roedd yr Aelodau'n croesawu'r angen am newid ac yn nodi'r ymatebion effeithiol a dderbyniwyd gan unigolion ag anabledd dysgu, rhieni a gofalwyr a staff ynghylch y ffordd ymlaen i'r gwasanaeth a'r cynigion a ddarperir i gefnogi unigolion.
- Nododd yr Aelodau thema o ran cyflogaeth a gwirfoddoli o ganlyniad i'r broses ymgysylltu, a chodwyd y cyfleoedd posibl y gellid eu cynnig i unigolion trwy'r nifer cynyddol o Hybiau Cymunedol ar draws y fwrdeistref.
- Argymhellodd yr Aelodau eu bod yn rhag-graffu ar y strategaeth ddrafft a chynlluniau gweithredu cysylltiedig cyn iddynt gael eu hystyried gan y Cabinet

### Mae gwaith arall yn cynnwys:

- **Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021/22 - 5 Hydref 2022**
- **Adroddiad Blynyddol ar weithdrefnau rhoi sylwadau, canmol a chwyno - 5 Hydref 2022**
- **Trefniadau'r Awdurdod Lleol ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion Mewn Perygl - 24 Hydref 2022**
- **Agweddau ar Safonau Masnach sy'n diogelu pobl agored i niwed – 24 Hydref 2022**
- **Archwilio Cymru – Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion - 24 Hydref 2022**
- **Strategaeth Gweithlu Gwasanaethau i Blant Rhondda Cynon Taf 2021-24 – 28 Tachwedd 2022**
- **Pwysau o ran Rhyddhau Cleifion o'r Ysbyty - 28 Tachwedd 2022**
- **Cynllun Dyrannu Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (2018) - 30 Ionawr 2023**

# Y Pwyllgor Craffu – Addysg a Chynhwysiant (2022-23)

## Diweddariad ar weithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2018 yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Ar **27 Hydref 2022**, cafodd y Pwyllgor adroddiad ar weithredu'r ddeddfwriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) newydd a oedd ar waith, sef y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) a'r Cod ADY statudol newydd (2021). Edrychodd yr adroddiad hefyd ar y risgiau posibl a'r adnoddau ychwanegol sydd eu hangen i sicrhau y gallai'r awdurdod lleol gyflawni'r dyletswyddau statudol newydd yn llawn ar ddiwedd yr amserlen gweithredu ADY genedlaethol, sef tair blynedd. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod yr adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Cabinet ar 26 Medi 2022, a bod y Cabinet wedi rhoi cymeradwyaeth i'r Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant symud ymlaen â chynigion cam tri yn ystod ail a thrydedd blwyddyn yr amserlen weithredu ADY.

### Deilliannau

- Mynegodd yr Aelodau bryder, tra'n cydnabod y cyfyngiadau newydd ar gyllidebau gydag ysgolion unigol, y byddai angen amser y tu allan i'r ystafell ddosbarth ar staff sy'n cymryd cyfrifoldebau ADY i ddarparu'r swyddogaethau hyn yn effeithiol e.e. cyfarfod â rhieni, cyrff allanol, ac ati, a byddai'n ddefnyddiol ailedrych ar hyn pan fydd effaith cyfyngiadau cyllidebol yn gliriach o fewn ysgolion.
- Tynnodd yr Aelodau sylw at y cynnydd yn nifer y plant rhwng 0 a 3 oed y nodwyd bod ganddynt ADY, tra'n cydnabod goblygiadau Covid-19.
- Teimlai'r Aelodau y byddai'n ddefnyddiol cael astudiaethau achos dienw i ddod yn ôl i'r pwyllgor yn y dyfodol.
- Cytunodd yr Aelodau y dylid cyflwyno diweddariad pellach i'r Pwyllgor gan gynnwys y blaenoriaethau a amlinellwyd, gan gysylltu â'r status quo, astudiaethau achos ac enghreifftiau o arfer gorau, monitro a gwerthuso twf y blynyddoedd cynnar, yn ogystal â'r cynllun ymgysylltu â rhieni.

## Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd

Yn y cyfarfod ar **2 Chwefror 2023**, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y gwaith o gyflwyno Prydau Ysgol am Ddim i bobl disgybl cynradd yn Rhondda Cynon Taf. Roedd hyn yn esbonio sut mae cyllid Llywodraeth Cymru wedi'i ddefnyddio i gefnogi'r fenter hon. Hysbyswyd yr Aelodau bod y polisi Prydau Ysgol am Ddim newydd yn rhan o'r Cytundeb Cydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, a fyddai'n gweld prydau ysgol am ddim yn cael eu hymestyn i bob disgybl ysgol gynradd dros gyfnod o dair blynedd. Mae'r nod yma'n seiliedig ar ddealltwriaeth Llywodraeth Cymru bod plant iau yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi incwm cymharol. Roedd yr ymrwymiad yn ymyriad trawsnewidiol ac yn gam pellach pwysig i fynd i'r afael â thlodi plant, a sicrhau bod plant yn cael o leiaf un pryd bob diwrnod ysgol, sy'n fater hollbwysig yng nghyd-destun presennol y costau byw cynyddol.

### Deilliannau

- Roedd yr Aelodau'n awyddus i sicrhau y darperir ar gyfer gofynion dietegol arbennig, gan gynnwys rhai megis ceiswyr lloches neu rai â chredoau crefyddol penodol, ac fe gafodd hyn ei nodi yn y camau gweithredu.
- Gan gydnabod y costau uwch, gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd y byddai costau staff arlwyo ychwanegol, arlwyo canolog, a chostau staff sy'n darparu data, yn cael eu hariannu'n llawn gan grant Llywodraeth Cymru.
- Roedd yr Aelodau'n awyddus i sicrhau bod modd defnyddio cynnyrch lleol yn y dyfodol, er budd cynaliadwyedd, gan nodi bod y Gwasanaeth yn gweithio gyda chydweithwyr caffael, a bod hyn yn wirioneddol uchel ar yr agenda ac yn cyd-fynd â rhaglen rheoli carbon y Cyngor.
- Teimlai'r Aelodau y byddai'n syniad gwych gweithio gyda Choleg y Cymoedd i sicrhau bod cynaliadwyedd ac annog y gadwyn honno o bobl ifainc i ddod i mewn i'r diwydiant.
- Cytunodd yr Aelodau, ar ôl craffu ar gynnwys yr adroddiad, eu bod yn dymuno ychwanegu hwn at y Rhaglen Waith ar gyfer y Dyfodol, ar ffurf adroddiad blynyddol.

### Mae gwaith arall yn cynnwys:

- **Fframwaith Gwerthuso, Gwella ac Atebolrwydd - 27 Hydref 2022**
- **Gweithredu Cwricwlwm i Gymru yn Ysgolion RhCT – Parodrwydd a Chymorth i Ysgolion – 27 Hydref 2022**
- **Trosolwg o effaith gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru ar bontio rhwng ysgolion, yn enwedig pan fydd disgyblion yn pontio i ysgolion uwchradd sydd wedi gohirio gweithredu'r cwricwlwm tan 2023 - 13 Rhagfyr 2022**
- **Ysgolion Bro – 13 Rhagfyr 2022**
- **Diweddariad am Addysg Ddewisol yn y Cartref – 13 Rhagfyr 2022**
- **Gwaith Consortiwm Canolbarth y De yn y Rhanbarth ac Awdurdod Lleol Rhondda Cynon Taf 2021- 2022 – 2 Mawrth 2023**
- **Moderneiddio Ysgolion – Diweddariad ar Fand B y Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy Ar Gyfer Dysgu – 2 Mawrth 2023**

## Prif Nodau'r Pwyllgorau Craffu

Nod pwyllgorau craffu yn RhCT yw sicrhau canlyniadau gwell i drigolion a chymunedau, ac ychwanegu at effeithiolrwydd y Cyngor drwy gefnogi gwella Polisïau, Deddfwriaeth a gwasanaethau cyhoeddus yr Awdurdod Lleol. Mae Pwyllgorau Craffu yn ychwanegu gwerth drwy ddarparu rôl cyfaill beirniadol, adeiladol a gwneud argymhellion clir i'r Cabinet a Swyddogion ar ddatblygu a gwella blaenoriaethau'r Cyngor.

## Cynllunio Rhaglenni Gwaith

Mae Rhaglenni Gwaith y Pwyllgorau Craffu yn cael eu llunio ar ddechrau blwyddyn y Cyngor, ac mae arfer sefydledig o gynllunio rhaglenni gwaith yn ei le er mwyn atgyfnerthu gwaith y pwyllgorau craffu. Mae nifer o ffyrdd y gall pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Rhondda Cynon Taf gymryd rhan yn y broses graffu. Mae modd gweld ein **rhaglenni gwaith** ar dudalennau gwe Craffu'r Cyngor, ac maen nhw'n cael eu diweddaru'n rheolaidd i adlewyrchu blaenoriaethau newidiol y Cyngor. Mae modd i drigolion gyflwyno'u barn ar unrhyw bwnc sy'n cael ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu.

## Datblygu, Hyfforddiant a Chefnogaeth i Aelodau

Yn dilyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2022, gwahoddwyd holl aelodau'r Pwyllgorau Craffu i fynychu tair sesiwn Hyfforddiant Craffu penodol, a ddarparwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC). Nod yr hyfforddiant oedd cyflwyno Aelodau newydd a'r rhai a oedd yn dychwelyd i bynciau allweddol megis sgiliau holi a sgiliau cadeirio, yn ogystal â rhoi dealltwriaeth gynhwysfawr i'r Aelodau o'r broses Graffu o fewn RhCT a'r arferion gorau sydd eu hangen ar gyfer ymgymryd â chraffu effeithiol.

Rhoddodd y sesiynau hyn gyfle i'r Aelodau ddefnyddio eu gwybodaeth a'u sgiliau yn eu Pwyllgorau Craffu (a rhag-gyfarfodydd), i ofyn cwestiynau perthnasol a chyfrannu at lunio argymhellion craffu effeithiol. Mae cyflwyno rhag-gyfarfodydd wedi helpu Aelodau i ganolbwyntio ar y canlyniadau gofynnol ac wedi lleihau achosion o ddyblygu cwestiynau yng nghyfarfodydd y pwyllgor gan arwain at gyfarfod mwy effeithiol.

I gefnogi Aelodau o fewn y pwyllgor, maent yn derbyn:

- Diweddariadau rheolaidd ar ymgynghoriadau agored Llywodraeth Cymru a'r rhai gan Gyngor Rhondda Cynon Taf sy'n berthnasol i'w pwyllgorau craffu penodol;
- Mae gan ddarpariaeth ymchwil Craffu'r Cyngor nifer o fanteision, megis gwella rhaglenni gwaith pwyllgorau craffu neu gefnogi gweithgorau craffu;
- Swyddog pwrpasol;
- Gwybodaeth fanwl, a hynny'n brydlon

Ym mlwyddyn nesaf y Cyngor, bydd yr holl Aelodau craffu yn cael cyfle i ymgymryd â hyfforddiant gloywi pwrpasol wedi'i deilwra sy'n berthnasol i'w pwyllgor craffu penodol. Bydd hyn yn gweithredu fel diweddariad canol blwyddyn ar y rhaglenni gwaith unigol sydd i ddod ac yn gyfle i ymgysylltu â'r Aelodau ynglŷn ag egwyddorion craffu effeithiol.

## Cyfranogiad ac Ymgysylltiad Cyhoeddus

Yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) i gryfhau democratiaeth leol ac annog cyfranogiad y cyhoedd, mae Aelodau'r Pwyllgorau Craffu yn awyddus i ymgysylltu â'n trigolion a rhanddeiliaid i helpu i lywio gwaith craffu a gwella ein deilliannau. Drwy gynnwys trigolion a rhanddeiliaid yn y broses graffu, mae mwy o atebolrwydd am y penderfyniadau a wneir gan y Cyngor. Mae trigolion a rhanddeiliaid yn gallu rhoi mewnbwn ac adborth ar y penderfyniadau a wneir, gan sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu er lles gorau'r gymuned.

Gall mwy o gyfranogiad yn y broses graffu annog mwy o gyfranogiad yn y penderfyniadau a wneir gan y Cyngor. Gall hyn helpu i feithrin cymunedau cryfach, mwy cydnerth sy'n gallu mynd i'r afael yn well â'r heriau y maent yn eu hwynebu.

Mae defnyddio dull hybrid i gynnal cyfarfodydd Pwyllgorau Craffu yn sicrhau mwy o hyblygrwydd ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae'r gallu i drigolion a rhanddeiliaid gymryd rhan yn rhithiol mewn cyfarfodydd yn dileu rhwystrau blaenorol y gallai rhai ohonyn nhw fod wedi'u profi oherwydd lleoliadau'r cyfarfodydd a chyfyngiadau amser. Yn ogystal â hynny, mae'r Cyngor yn ffrydio neu'n recordio ei gyfarfodydd yn rheolaidd gan roi cyfle i drigolion a rhanddeiliaid weld trafodaeth lawn ar eitemau a rhoi cipolwg ar y broses Graffu. Mae'r cyfuniad o gyfarfodydd hybrid a gweddarlledu yn arwydd cadarnhaol o atebolrwydd a thryloywder gan annog ymgysylltu a dadlau. Yn dilyn y cyfarfod caiff y gweddarllediad ei lanlwytho i dudalen cyfarfod y Pwyllgor Craffu perthnasol.

## Sut ydyn ni'n cynnwys ein rhanddeiliaid a'n dinasyddion?

- Mae modd i'r cyhoedd gymryd rhan mewn Pwyllgorau Craffu drwy gofrestru eu diddordeb ar-lein a thrwy e-bostio'r Garfan Graffu. Gellir dod o hyd i ganllawiau ar gymryd rhan ar ein gwefan trwy glicio **yma.**
- Gwahoddir rhanddeiliaid a chynrychiolwyr allanol i gyfrannu at ehangu ein dealltwriaeth a llywio ein trafodaethau. Mae rhai o'r cynrychiolwyr sydd wedi mynychu ein cyfarfodydd eleni yn cynnwys:

  Llywodraeth Cymru

  Consortiwm Canolbarth y De

  Penaethiaid Ysgolion RhCT

  Ffoadur sy'n byw yng Nghymru
- Mae gyda ni aelodau cyfetholedig ar ein Pwyllgor Craffu Addysg a Chynhwysiant, sy'n cynrychioli rhiant lywodraethwyr, a'r Eglwys yng Nghymru.
- Rydyn ni'n ymgysylltu â'r cyhoedd tra'n sicrhau didwylledd a thryloywder drwy we-ddarlledu holl gyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu – mae manylion i'w gweld yma

## Ymchwil a Chraffu

Mae cyfleuster ymchwil craffu ar gael yn Uned Busnes y Cyngor i gynorthwyo Aelodau â'u cyfrifoldebau craffu a'u rolau'n Aelodau Etholedig. Mae ymchwil o'r fath yn cryfhau rhaglenni gwaith y Pwyllgorau Craffu er mwyn sicrhau bod pynciau sy'n seiliedig ar ddeilliannau yn cael eu nodi.

**Mae'r cyfleuster ymchwil craffu ar gael i holl Aelodau'r Cyngor. Nod y cyfleuster hwn yw cynorthwyo Aelodau gyda:**

- Ymchwil ar unrhyw waith achos/ymholiadau gan etholwyr;
- Ymchwil ar unrhyw adroddiadau sy'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu;
- Ymchwilio i unrhyw gwestiynau yr ydych yn bwriadu eu codi yn ystod Pwyllgor Craffu;
- Ymchwil ar eitem y teimlwch y dylid ei hychwanegu at y Rhaglen Waith Craffu;
- Unrhyw waith ymchwil cyffredinol sy’n bwysig i chi a’ch etholwyr

**Mae enghreifftiau o geisiadau ymchwil a wnaed yn ystod Blwyddyn y Cyngor eleni yn cynnwys:**

- Cais ymchwil ar bolisi hybrid y Cyngor;
- Ceisiadau ymchwil ar gwestiynau a ofynnir gan etholwyr; a,
- Ceisiadau ymchwil ar ffigurau presenoldeb aelodau cyfetholedig yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Craffu

Croesewir pob cais ymchwil ac rydyn ni'n annog pob Aelod i ddefnyddio’r cyfleuster hwn. Anfonwch eich cais at e-bost **craffu@rctcbc.gov.uk**

## Y Ffocws Ar Gyfer 2023/24

- Cryfhau'r cysylltiadau rhwng y Cabinet a'r Pwyllgorau Craffu drwy roi mwy o ffocws ar drefniadau rhag-graffu, gan ganiatáu i aelodau'r Pwyllgorau Craffu ddylanwadu ar benderfyniadau allweddol cyn iddynt gael eu gwneud gan y Pwyllgor Gwaith.
- Datblygu'r defnydd o Rhag-gyfarfodydd Craffu i ganolbwyntio ar y prif drywyddau ymholi mewn cyfarfodydd Pwyllgor
- Cynyddu ymgysylltiad â chymunedau trwy gyhoeddi blogiau Cadeiryddion
- Darparu hyfforddiant gloywi Craffu mewnol, pwrpasol ar gyfer holl Aelodau'r Cyngor gan gwmpasu sgiliau craffu craidd, rhaglennu gwaith a chraffu ariannol a chyllideb

## Y Garfan Graffu

I gael rhagor o fanylion am gynnwys yr adroddiad hwn, e-bostiwch: **craffu@rctcbc.gov.uk**
Julia Nicholls – Blaen Swyddog Craffu - 07385 086814
Sarah Daniel – Blaen Swyddog Materion Democrataidd a Chraffu - 07385 086169
Tracy Watson – Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu - 07747 485567
Jess Daniel – Swyddog Materion Democrataidd a Chraffu – 07385 401877
Sarah Handy – Swyddog Ymchwil a Materion Craffu'r Aelodau - 07385 401942